Gardd Eden (Genesis 2:4-9)

Yn y dydd y gwnaeth yr ARGLWYDD Dduw ddaear a nefoedd, nid oedd un o blanhigion y maes wedi dod ar y tir, nac un o lysiau'r maes wedi blaguro, am nad oedd yr ARGLWYDD Dduw eto wedi peri iddi lawio ar y ddaear, ac nad oedd yno ddyn i drin y tir; ond yr oedd tarth yn esgyn o'r ddaear ac yn dyfrhau holl wyneb y tir. Yna lluniodd yr ARGLWYDD Dduw ddyn o lwch y tir, ac anadlodd yn ei ffroenau anadl einioes; a daeth y dyn yn greadur byw. A phlannodd yr ARGLWYDD Dduw ardd yn Eden, tua'r dwyrain; a gosododd yno y dyn yr oedd wedi ei lunio. A gwnaeth yr ARGLWYDD Dduw i bob coeden ddymunol i'r golwg, a da i fwyta ohoni, dyfu o'r tir; ac yr oedd pren y bywyd yng nghanol yr ardd, a phren gwybodaeth da a drwg.

Myfyrdod

Yr wythnos diwethaf roedd yn bedair blynedd ers Tân Grenfell a laddodd 72 o bobl. Cwestiwn agos at galon teuluoedd y rhai a gollodd eu bywydau yn y tân yw pa fath o gofeb sy'n briodol i'w coffau. Un awgrym yw y dylid cadw Tŵr Grenfell fel gardd uchel wedi'i phlannu â 72 math o blanhigion.

Yn 'Thought for the Day' ar Radio 4 fore Mawrth bu'r Parchg Ddr Michael Banner o Goleg y Drindod Caergrawnt yn sôn am y modd y mae'r crefyddau sydd â'u gwreiddiau yn y Dwyrain Canol yn darlunio paradwys yn aml fel gardd. Gair Persiaidd yn golygu lle caeedig oedd y gair y tu ôl i'r syniad o baradwys, a dehonglwyd hynny fel cyfeiriad at ardd.

Gallwn ddeall apêl gerddi i bobl oedd yn by wyn ardaloedd poeth a chras y Dwyrain Canol, ac un o'r darluniau cofiadwy yn Llyfr Genesis yw hwnnw o Dduw yn rhodio yng Ngardd Eden 'gyd ag awel y dydd' (Genesis 3:8).

Yn ei hemyn 'Speak, Lord, in the stillness', y mae Emily May Grimes yn gweddïo am i'w bywyd fod fel gardd. Cyfansoddodd yr

emyn yn Pondoland, sef gorsaf genhadol yn Ne Affrica, a lluniwyd y cyfieithiad Cymraeg ohono gan W. Nantlais Williams. Dyma bennill olaf yr emyn;

Megis gardd ddyfradwy,
o aroglau'n llawn,
boed fy mywyd, Arglwydd,
fore a phrynhawn.

Gweddi

Dduw ein Tad,
diolchwn i ti am bobl y mae eu bywyd yn llawn perarogl
ac sydd yn harddu ac yn puro bro a chymuned.
Pobl y mae gwerthoedd yr Efengyl ac egwyddorion y Deyrnas
yn amlwg yn eu byw a'u bod,
ac sy'n dwyn bendith i bawb o'u cwmpas.
Gweddïwn am i'w dylanwad iachusol fynd ar gynnydd
ac am i ninnu gael y gras i dyfu yn eu cysgod.

Cyflwynwn i ti bawb sy'n teimlo
fod bywyd yn fwy o anialwch nag o ardd,
ac sy'n gofidio fod chwyn atgasedd a hunanoldeb
yn gwreiddio o'u cwmpas.

Cyflwynwn i ti bawb a welodd
drefn a phatrwm yr ardd
yn cael ei ddifetha gan brofedigaeth a galar,
gwendid a llesgedd,
gofid a phryder,
ansicrwydd ac anobaith.
Yng nghanol eu cynni,
dyro iddynt eto weld
yr had yn egino a'r blagur yn taflu.

A diolchwn i ti am Iesu Grist, y pen garddwr,
a ddaeth o'r bedd yn fyw, mewn gardd. **Amen.**

Emyn (781 yn C.Ff.)

Yn y dwys ddistawrwydd
dywed air, fy Nuw;
torred dy leferydd
sanctaidd ar fy nghlyw.

O fendigaid Athro,
tawel yw yr awr;
gad im weld dy wyneb,
doed dy nerth i lawr.

Ysbryd, gras a bywyd
yw dy eiriau pur;
portha fi â'r bara
sydd yn fwyd yn wir.

Dysg fi yng ngwybodaeth
dy ewyllys lân;
nerth dy gariad ynof
dry dy ddeddfau'n gân.

Megis gardd ddyfradwy,
o aroglau'n llawn,
boed fy mywyd, Arglwydd,
fore a phrynhawn. EMILY M. GRIMES, 1864-1927 cy/. NANTLAIS, 1874-1959

Ctrl a chlic
https://youtu.be/mEQiVuLbquE

Huw Rhys Evans, Seion, Ealing Green.

Y Fendith

Bydded i'r Tad gerdded gyda chwi yn ffresni'r ardd.
Bydded i'r Mab gerdded gyda chwi ar lwybr y mynydd.
Bydded i'r Ysbryd gerdded gyda chwi ar lwybr y pererinion.
Bendith y Tad, y Mab a'r Ysbryd a fo arnoch yn wastad. **Amen.**

John Johansen-Berg, addas. Glyn Tudwal Jones yn E ap N Roberts (gol), Amser i Dduw, 2004, t. 330.